

2010 Rhif 53

**DEDDF Y GWASANAETH
IECHYD GWLADOL (CYMRU)
2006**

**Cyfarwyddiadau Gwaed a
Thrawsblaniadau'r GIG (NHS
Blood and Transplant) (Cymru)
(Diwygio) (Rhif 3) 2010**

Gwnaed

Rhagfyr 2010

Yn dod i rym

21 Rhagfyr 2010

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 23(1), 24(1), a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1) drwy hyn yn gwneud y Cyfarwyddiadau a ganlyn —

Cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Daw'r Cyfarwyddiadau hyn i rym ar 21 Rhagfyr 2010.

(2) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Cyfarwyddiadau hyn —

ystyr "y Prif Gyfarwyddiadau" (*"the Principal Directions"*) yw Cyfarwyddiadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHS Blood and Transplant) (Cymru) 2005.

(4) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn diwygio'r prif Gyfarwyddiadau.

Mewnosod cyfarwyddyd 2A yn y Prif Gyfarwyddiadau

2. Ar ôl cyfarwyddyd 2 (swyddogaethau mewn cysylltiad â gwaed a chelloedd bonyn) o'r Prif Gyfarwyddiadau mewnosoder—

**“Trosglwyddo'r Labordy Bio Gynhyrchion
(BPL)**

2A. Bydd GTGIG yn rhoi effaith i'r argymhelliad ym mharagraff 3.48 o Liberating the NHS - the Report of the arms-length bodies review a gyhoeddwyd ar 26 Gorffennaf 2010(1).”

Edwina Hart AC

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad

Rhagfyr 2010

(1) Mae'r adroddiad ar gael yn www.dh.gov.uk.